**CYNGOR SIR FYNWY**

**Pwyllgor Trwyddedu a Rheleiddio**
**Neuadd Y Sir, Y Rhadyr, BrynbugaCouncil Chamber, County Hall, The Rhadyr, Usk, NP15 1GA and remote attendance**
**Dydd Mawrth, 24ain Mai, 2022, 2.00 pm**

| | |
|---|---|
| **CYNGHORWYR YN BRESENNOL:** | Cynghorydd Sirol Tony Easson (Cadeirydd) |
| | Cynghorydd Sirol: Jan Butler, John Crook, Lisa Dymock, Christopher Edwards, Simon Howarth, Jane Lucas, Dale Rooke, Jackie Strong, Armand Watts, Ann Webb |

**SWYDDOGION YN BRESENNOL:**

| | |
|---|---|
| David Jones | Pennaeth Diogelu'r Cyhoedd |
| Linda O'Gorman | Principal Licensing Officer |
| Leigh Beach | Swyddog Trwyddedu |
| Ben Davies | Solicitor |
| Richard Williams | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |

**YMDDIHEURIADAU:**

Cynghorydd Sirol: Alistair Neill, Sue Riley

1. **Ethol Cadeirydd.**

Etholwyd y Cynghorydd Sir A. Easson yn Gadeirydd.

2. **Penodi Is-gadeirydd.**

Penodwyd y Cynghorydd Sir A. Webb yn Is-gadeirydd.

3. **Datganiadau o Fuddiant.**

Datganodd y Cynghorydd Sir C. Edwards fuddiant personol a rhagfarnol yng nghyswllt eitem agenda 7 oherwydd ei fod yn adnabod perthynas agos i'r ymgeisydd. Gadawodd y cyfarfod heb gymryd unrhyw ran yn y drafodaeth na phleidleisio ar hynny.

Datganodd y Cynghorydd Sir A. Webb fuddiant personol a rhagfarnol yng nghyswllt eitem agenda 7 oherwydd ei bod yn adnabod yr ymgeisydd. Gadawodd y cyfarfod heb gymryd rhan yn y drafodaeth na phleidleisio ar hynny.

Datganodd y Cynghorydd Sir D. Rooke fuddiant personol heb fod yn rhagfarnol yng nghyswlt eitem 8 oherwydd ei fod yn adnabod yr ymgeisydd. Mae'r ymgeisydd yn gweithredu busnes yn agos at ei gartref ac mae wedi defnyddio'r busnes yn achlysurol. Gadawodd y cyfarfod heb gymryd rhan yn y drafodaeth na phleidleisio ar hynny.

**CYNGOR SIR FYNWY**

**Pwyllgor Trwyddedu a Rheleiddio**
**Neuadd Y Sir, Y Rhadyr, BrynbugaCouncil Chamber, County Hall, The Rhadyr, Usk, NP15 1GA and remote attendance**
**Dydd Mawrth, 24ain Mai, 2022, 2.00 pm**

4. **Cadarnhau'r cofnodion dilynol:**

**4.1. Pwyllgor Trwyddedu a Rheoleiddiol – 8 Mawrth 2022**

Cafodd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Trwyddedu a Rheoleiddio dyddiedig 8 Mawrth 2022 eu cadarnhau a'u llofnodi gan y Cadeirydd.

**4.2. Is-bwyllgor Trwyddedu a Rheoleiddiol – 8 Mawrth 2022**

Cafodd cofnodion cyfarfod yr Is-bwyllgor Trwyddedu a Rheoleiddio dyddiedig 8 Mawrth 2022 eu cadarnhau a'u llofnodi gan y Cadeirydd.

5. **Ystyried pa un ai i eithrio'r wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod pan ystyrir yr eitemau dilynol o fusnes yn unol ag Adran 100A Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i diwygiwyd, ar y sail eu bod yn golygu datgeliad tebygol o wybodaeth a gafodd ei heithrio fel y'i diffiniwyd ym Mharagraff 12 Rhan 4 Atodlen 12A y Ddeddf.**

Cafodd y wasg a'r cyhoedd eu heithrio o'r cyfarfod pan ystyriwyd yr eitemau dilynol o fusnes yn unol ag Adran 100A Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i diwygiwyd, ar y sail eu bod yn cynnwys datgeliad tebygol o wybodaeth a eithirwyd fel y'i diffinnnir ym Mharagraff 12 Rhan 4 Atodlen 12A y Ddeddf.

6. **Cais i adnewyddu caniatâd masnachu stryd.**

Croesawodd y Cadeirydd yr ymgeisydd a'i gynrychiolydd i'r cyfarfod a chyflwynodd Aelodau'r Pwyllgor a'r Swyddogion oedd yn bresennol ac esbonio'r protocol ar gyfer y cyfarfod.

Cadarnhaodd yr ymgeisydd ei enw a chyfeiriad i'r Pwyllgor. Cadarnhaodd yr ymgeisydd iddo dderbyn yr adroddiad a gwybodaeth ychwanegol a gafwyd gan yr Adran Drwyddedu yng nghylch y mater a chydnabu y byddai'n symud ymlaen heb gynrychiolaeth gyfreithiol.

Cafodd y materion a'r manylion dilynol eu darllen yn uchel i'r Pwyllgor.

Cafodd yr ymgeisydd wedyn gyfle i annerch y Pwyllgor er mwyn cyflwyno unrhyw esboniadau perthnasol. Yn dilyn hyn, holodd Aelodau'r Pwyllgor gwestiynau i'r ymgeisydd a dilynodd trafodaeth. Cafodd yr ymgeisydd wedyn gyfle i grynhoi.

Yn dilyn y cwestiynau, gadawodd y Pwyllgor Trwyddedu a Rheoleiddiol a'r cynrychiolydd cyfreithol y cyfarfod i ystyried a thrafod y canfyddiadau.

Pan ailddechreuodd y cyfarfod, hysbysodd y Cadeirydd fod y Pwyllgor wedi ystyried y materion ac wedi penderfynu caniatau adnewyddu a chyhoeddi Caniatâd Masnachu Stryd am 12 mis wedi ei ôl-ddyddio i ddechrau o 14 Mawrth 2022 tan 14 Mawrth 2023.

7. **Ysytired os yw'r gyrrwr yn "Addas a Chywir" i barhau i ddal Trwydded Gyrrwr Cerbyd Hacni/Llog Preifat. Ystyried os y dylai'r Gweithredydd Hur Preifat barhau i ddal trwydded o'r fath. Ystyried os caiff y Drwydded Cerbyd Hur Preifat ei chadw.**

**CYNGOR SIR FYNWY**

**Pwyllgor Trwyddedu a Rheleiddio**
**Neuadd Y Sir, Y Rhadyr, BrynbugaCouncil Chamber, County Hall, The Rhadyr, Usk, NP15 1GA and remote attendance**
**Dydd Mawrth, 24ain Mai, 2022, 2.00 pm**

Croesawodd y Cadeirydd yr ymgeisydd i'r cyfarfod a chyflwynodd Aelodau'r Pwyllgor a'r Swyddogion oedd yn bresennol ac esboniodd y protocol ar gyfer y cyfarfod.

Cadarnhaodd yr ymgeisydd ei enw a chyfeiriad i'r Pwyllgor. Cadarnhaodd yr ymgeisydd iddo dderbyn yr adroddiad a gwybodaeth ychwanegol a gafwyd gan yr Adran Drwyddedu yng nghylch y mater a chydnabu y byddai'n symud ymlaen heb gynrychiolaeth gyfreithiol.

Cafodd y materion a'r manylion dilynol eu darllen yn uchel i'r Pwyllgor.

Cafodd yr ymgeisydd wedyn gyfle i annerch y Pwyllgor er mwyn cyflwyno unrhyw esboniadau perthnasol. Yn dilyn hyn, holodd Aelodau'r Pwyllgor gwestiynau i'r ymgeisydd a dilynodd trafodaeth. Cafodd yr ymgeisydd wedyn gyfle i grynhoi.

Yn dilyn y cwestiynau, gadawodd y Pwyllgor Trwyddedu a Rheoleiddiol a'r cynrychiolydd cyfreithol y cyfarfod i ystyried a thrafod y canfyddiadau.

Pan ailddechreuodd y cyfarfod, dywedodd y Cadeirydd fod y Pwyllgor wedi ystyried y materion ac wedi penderfynu:

(i) nad oedd yr ymgeisydd yn berson addas a chywir i barhau i ddal Trwydded Gyrrwr Cerbyd Hacni/Hur preifat.

(ii) bod trwydded y Gweithredydd Hur Preifat yn cael ei diddymu.

**8. Cadarnhau dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf.**

Dydd Mawrth 28 Mehefin 2022 am 10.00am.